



TGAU CYNLLUN MARCIO

HAF 2018

**TGAU (NEWYDD)
LLENYDDIAETH GYMRAEG - HAEN UWCH
UNED 2: Y NOFEL
3010NB0-1**

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

1. Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

(a) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Harri Evans yn dial ar Richard Jones am nad oedd wedi cael ei ran ef o'r gemau a ddwynwyd o siop Jenkins, Wrecsam
- Huw Gwastad Hir yn dial ar Meredydd - ymosod arno am na chyhuddwyd ef o dreisio Bethan ei chwaer
- Gareth Huws yn ymosod ar Huw
- Gladys yn dial ar Meredydd am ddwyn y sylw adeg marwolaeth Wil ei gŵr – ei rieni ef wedi marw yr un cyfnod
Gladys hefyd am ddial ar Meredydd yn dilyn yr achos llys
- Gladys yn mynd at yr heddlu i ddial ar Richard Jones – pan fu bron â'i tharo i lawr gyda'i gar
- Aelodau teulu Bethan am ddial ar Meredydd am yr achos o geisio treisio

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Arddull storiol ar y dechrau – er mwyn i Meredydd adrodd y stori
 - Camsyniad teimladol – disgrifio'r tywydd yn fanwl
 - Cwestiynu Einir – yn codi tensiwn yn y darn
 - Brawddegau byrion yn creu tensiwn. "Fi ddaeth o hyd i 'nhad. Roedd pawb arall wedi laru chwilio"
 - Brawddegau byrion Einir ar ddiwedd y darn yn cynyddu'r tensiwn
 - Gwrthgyferbyniad rhwng paragraffau - Meredydd yn adrodd y stori ac yn disgrifio a'r cwestiynau/brawddegau byr gan Einir.

8-10	• dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Ei ofid nad oedd am allu cael gafael ar y trysor – yr holl gynllunio'n ofer
 - Cofio am Now – gallai ymweld â'r fferm i gael mwy o wybodaeth
 - Cael ei hunan mewn sefyllfa anodd - ffonio'r ysbyty a deall bod Harri Evans wedi marw
 - Meddwl sut i gael gafael ar y cynlluniau – swyddfeydd cynllunio a phenseiri'r dref
 - Popeth wedi ei drefnu mor ofalus – gallai hyn fod yn ofer bellach
 - Defnyddio sbienddrych i wyllo stad Tan Ceris a thŷ Gladys
 - Holi mwy ar Meredydd yn Yr Erddig ar ôl deall mai pensaer ydyw

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

2. I Ble'r Aeth Haul y Bore?

(a) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Chico am ddial ar y Cotiau Glas yn dilyn llofruddiaeth Chiquito
- Haul y Bore am ddial ar y Cotiau Glas – cynghori Barboncito i daflu creigiau o'r ogofâu
- Dicks am ddial ar Haul y Bore am iddi ei gnoi a dianc ar ddechrau'r nofel – dal ei wn i'w phen
- Carson am ddial ar Dicks am y dulliau creulon a ddefnyddiodd i orfodi'r Indiaid i symud i'r Bosque

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Brawddegau byr i greu tensiwn “Gorweddai hi'n llonydd.”
 - Defnydd o'r synhwyrâu – teimlo a blasu wrth iddi ymladd nôl a dial ar Dicks – blasu'r gwaed a theimlo'r cnawd yn rhwygo rhwng ei dannedd
 - Rhegi a brawddegau byrion yn cyfleu dicter Dicks
 - Ailadrodd "Bitsh!"- cyfleu ei ddicter
 - Cyferbyniad rhwng y digwyddiadau sydyn yn cynnwys Dicks, Haul y Bore a'r milwyr a'r darlun llonydd o Quanah yn syllu ar y cyfan - "Wyneb rhychiog, gwelw a dau lygad llonydd, stond yn syllu'n oeraidd arno drwy'r hesg.

8-10	• dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Wedi meddwl ei fod am farw – y boen a deimlodd wrth i Dicks rwygo ei dafod – ac wedi clywed y bleiddiaid – yn meddwl yn sicr ei fod am farw
 - Y dur poeth yn cael ei osod ar ei dafod - llewygu
 - Credu na fyddai byth yn gweld Haul y Bore eto - poeni'n fawr amdani
 - Derbyn y newyddion gan Benito bod Haul y Bore'n fyw
 - Methu siarad – gan fod ei dafod wedi chwyddo cymaint
 - Am barhau i ddial ar y Cotiau Glas
 - Ei gasineb at Dicks am ladd Chiquito a threisio Haul y Bore

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

3. Dim

- (a) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Perthynas agos Gwyn ac Owain
 - Gwyn yn perthyn yn agos i'w ardal – dyn y filltir sgwâr – aros yn yr ardal i ffermio
 - Perthyn i wlad hefyd yn bwysig i Gwyn – Cymro i'r carn
 - Perthynas waed yn bwysig i Gwyn – yn benderfynol o ddarganfod yn union beth oedd amgylchiadau marwolaeth Owain – ac mai wedi ei ladd yn fwriadol oedd
 - Gwyn yn cwestiynu perthynas Owain - amau mai chwilio am wybodaeth gudd am Feibion Glyndŵr oedd Owain

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Brawddegau byrion – i greu tensiwn “Daeth yr athrawon i mewn. A cherdded,”
 - Synnwyr teimlo – “wedi crafu blaen ei esgid i lawr hyd gewyn ffêr Gwyn”
 - “fel petai pawb newydd ddarganfod fod ganddo afiechyd heintus.” - cyfleu atgasedd pobl at Gwyn
 - Defnydd o Saesneg sarhaus – yn cyfleu agwedd wrth Gymreig yr ardal; cyfleu agwedd hunan bwysig ac awdurdodol y prifathro
 - Rhestru synhwyrâu

8-10	• dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y ffraeo fu rhyngddynt noson angladd Richard Lloyd - yn gwybod ar hyd yr adeg eu bod yn wahanol
- Gweld Owain fel bradwr – yn gwasanaethu'r fyddin – pysgota am wybodaeth oedd ei unig fwriad yn dychwelyd i'r angladd – heb ddod adref i angladd ei fodryb
- Yn hynod falch ei fod wedi parchu a gofalu am ei ewythr – yn union fel yr oedd ef wedi gofalu amdano ef ac Owain yn fechgyn amddifad
- Cymreictod yn bwysig iawn – yn amharod gweld y Gymraeg a'r Cymry yn cael eu sarhau – yr ysgol – y coleg
- Cyfaddef wrth yr heddlu iddo ddwyn y ffeiliau a'r brotest ym Mangor
- Cymdogol – yn barod i gynorthwyo ffermydd eraill

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

4. Y Stafell Ddirgel

(a) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Boddi Betsan Prys yn y Gadair Goch ar ddechrau'r nofel
- Huw Morris yn greulon tuag at Ellis Puw - chwerthin ar ei ben am ei fod yn gallu darllen
- Meg yn sarhaus tuag at y Crynwyr
- Triniaeth Ifan Roberts yng Ngharchar Caetanws
- Huw Morris yn treisio Lisa
- Boddi Dorcas yn y Gadair Goch
- Carcharu'r Crynwyr am eu ffydd – yr achos llys – eu dedfrydu i farwolaeth gan y Barnwr Walcott
- Casineb Meg tuag at Rowland am glosio at y Crynwyr – ymweld â Sinai i gydymdeimlo

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriadau • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Brawddegau byrion yn creu tensiwn “Estynnodd Huw...”
 - Cwestiwn rhethregol – yn cyfleu ofn Meg “A gafodd hi fuddugoliaeth?”
 - Cyfres o ferfau cryno yn dangos panig Meg – “Cydiodd... Tynnodd...Gwthiodd...”
 - Synhwyrâu wrth iddi deimlo’r arian “Cododd lond dwrn...”
 - Synhwyrâu eto wrth iddi glywed llais Huw Morris
 - Cyffelybiaeth “fel slywen” y cyfleu cyfrwystra Huw a’i gyflymdra yn yr olygfa

8-10	• dadansoddi’n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a’r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a’r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

- (c) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Cyfleu tawelwch cymeriad Ellis – dim awydd i ddial am yr hyn ddigwyddodd i Dorcas
 - Ei gariad angerddol ati – cymaint roedden nhw wedi edrych ymlaen at briodi a chael bod gyda'i gilydd
 - Sicrwydd ei ffydd Gristnogol
 - Gwybod y byddai Rowland Ellis yn gefn iddo yn ei alar – ac y byddai'r Crynwyr hefyd yn gymorth iddo
 - Am gadw ei deimladau iddo'i hunan – gwybod efallai mai cyfnodau yn y carchar fyddai'n wynebu'r Crynwyr
 - Poeni beth fyddai ymateb Sinai i'r newyddion am foddi ei merch

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

5. Yn y Gwaed

(a) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Euogrwydd Robin am ladd ei blentyn ef a Mared a'i gladdu o dan y Garreg Wen - mae'n cadw draw o'r berllan a dyna sy'n gyfrifol am ei hunllefau
- Sefyll ei brawf yng Nghapel Gilgal
- Hunllefau Robin – agor bedd y plentyn yn cyfleu ei euogrwydd
- Euogrwydd Mam – gwrthod mynd yn agos at Fo – ei heuogrwydd am berthynas losgachol gyda Dewyrth Ifan sy'n gyfrifol am hyn
- Dyddiaduron Mared yn cyfleu ei heuogrwydd - am ei pherthynas losgachol gyda Robin - nid yw Robin yn teimlo'r un euogrwydd
- Euogrwydd Mared hefyd wrth iddi gyfadde' wrth Mam ei bod yn feichiog -
- Mam yn euog am farwolaeth Mared – yr erthyliad cartref
- Euogrwydd Robin – y garreg wen, y berthynas losgachol â Mared a llosgi Capel Gilgal yn ei orfodi i gyflawni hunanladdiad ar ddiwedd y nofel

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Brawddegau byrion y fam yn dangos ei diffyg amynedd
 - Synnwyr teimlo – ei hewinedd yn torri i mewn i gnawd gwlyb Robin
 - Iaith fygythiol Mam “Ddim yn gall fyddi di!”
 - Berfau gorchmynnol Mam! Paid... Dos... Gwna” yn cyfleu ei chymeriad awdurdodol
 - Cwestiynau / Ebychiadau
 - Ansoddeiriau – ei cheg yn fawr, ac yn ddiddannedd, ddu
 - Brawddegau byr yn yr hunllef - dangos aflonyddwch Robin

8-10	• dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Penderfynol nad yw Mared yn mynd i gael geni'r plentyn hwn – yn cynllunio erthyliad cartref yn syth
- Wedi gweld digon o ddioddef oherwydd llosgach – Fo yn y llofft stabal – nid yw'n fodlon ymwneud dim ag ef
- Trefnu llofruddio plentyn cyntaf Mared – arswyd y Garreg Wen yn y berllan – gwneud er eu lles nhw
- Rhaid cadw hanes y teulu'n gyfrinachol – dim croeso i neb yn Arllechwedd
- Poeni am ymweliadau Jeff a Harri Llwyn Crwn

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

6. O Ran

(a) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Anti June yw mam Angharad – o ganlyniad i drais. Daw Angharad i wybod am hyn ar ddiwedd y nofel - cuddio hyn er mwyn cadw enw da'r teulu
- Wedi ei magu gan ei modryb – cael ei chofrestru fel plentyn Mary ac Ifan Gwyn
- Ifan wedi twyllo Mary – bu mewn perthynas gydag Elena ar hyd y blynyddoedd – hyd yn oed pan oedd Mary wedi mynd i Lundain gydag Anti June i eni Angharad
- Ifan – hunan dwyll – yn alcoholig – poteli gwag ar hyd y tŷ – Angharad yn eu cuddio cyn i Myng-gu eu gweld

16-20	• dangos dealltwriaeth dreiddgar • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • <i>cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda • defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol • <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	• dangos dealltwriaeth eithaf da • defnyddio dyfyniadau • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan</i>
0-3	• arddangos gwybodaeth trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • defnyddio ambell ddyfyniad • <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>

- (b) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Synhwyrâu yn cyfleu sŵn plant yn chwarae ar fuarth yr ysgol.
 - Brawddegau byrion – cyfleu'r cyffro "Gwisgo cot. Mynd allan i fyd newydd."
 - Brawddegau byrion yn cyfleu ofn Angharad "Dal gwaelod fy ffrog."
 - Nerfusrwydd Angharad yn amlwg drwy'r darn.
 - Cyferbyniad rhwng y ddau ddarn

8-10	• dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol • ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull / techneg / defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar
5-7	• trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau • trafod addasrwydd arddull / techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol • defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda
2-4	• disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb • dangos dealltwriaeth o arddull / techneg a'r defnydd o iaith • defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol
0-1	• ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, techneg a defnydd o iaith • defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Pwy yw Angharad – sylweddoli pwysigrwydd Anti June yn ei magu – yn deall pam roedd hi a'i mam-gu yn ymweld â nhw
- Siom am fyw celwydd ar hyd y blynyddoedd – a'r celwydd ar ei thystysgrif geni
- Sylweddoli ar ddiwedd y nofel bod Elena mewn perthynas gyda'i thad ers dyddiau geni Angharad – beth am Jackie? Pam nad oedd Angharad yn cael crybwyll ei henw wrth Elena?
- Cydnabod ei fod wedi bod yn dad da iddi – ond siom Angharad ar ôl sylweddoli'r gwir
- Ei alcoholiaeth wedi effeithio arno'n ariannol yn ogystal â chorfforol

8-10	• llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus • gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	• ymateb i'r testun yn fyw a threfnus • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • <i>dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
2-4	• gwaith lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • <i>ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddangos arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael gyson ar sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg ar y cyfan</i>
0-1	• dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau • <i>dangos ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>